
# Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan



Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
All Wales People First

The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales

# Dyma ddogfen Strategaeth

# MIRROR ar gyfer

# 2025—2029

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Page 3** | Cyflwyniad |
| **Page 4** | Cysylltu â'r Aelodau |
| **Page 6** | Polisïau ac Ymgyrchu |
| **Page 9** | Rhwydwaith Eiriolaeth Cymru |
| **Page 10** | Cefnogi Grwpiau Lleol |
| **Page 11** | Nod Ansawdd Hunaneiriolaeth |
| **Page 12** | Cyfathrebu |
| **Page 14** | Amrywiaeth |

## Cyflwyniad




Dyma ddogfen Strategaeth MIRROR ar gyfer 2025 - 2029.




Strategaeth MIRROR yw ein Cynllun Busnes.




Seiliwyd ar egwyddorion MIRROR ar hunaneiriolaeth.

**4**

Mae'n nodi ein cynlluniau dros y pedair blynedd nesaf.

**2**

Lluniwyd Strategaeth MIRROR gan yr aelodau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.




Arwyddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ar 3 Rhagfyr 2024.

## Cysylltu â'r Aelodau



Bydd y Cyngor Cenedlaethol yn newid yn ôl o bedwar i chwe chyfarfod y flwyddyn.

**2**

Bydd dau o'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar yr isod:

- Lobio
- Ymgyrchu
- Datganiadadau Safleoedd
- Hyfforddiant a Sgiliau




Byddant yn cymryd lle'r is-grwpiau isod:

- Lobio ac Ymgyrchu
- Datganiadau Safbwynt
- Aelodaeth

**4**

Bydd pedwar Digwyddiad Rhanbarthol yn disodli'r Cynghorau Rhanbarthol.

**1**

Cynhelir un digwyddiad ym mhob rhanbarth bob blwyddyn.




Cynllunnir y Digwyddiadau Rhanbarthol ar y cyd â grwpiau lleol ym mhob rhanbarth.



Nod y digwyddiadau:

· Cysylltu â llunwyr penderfyniadau grwpiau hunaneiriolaeth ym mhob rhanbarth

· Hyrwyddo hunaneiriolaeth ym mhob rhanbarth

· Dathlu llwyddiannau hunaneiriolaeth ym mhob rhanbarth

· Dysgu o brofiadau grwpiau eraill.




Cynhelir Digwyddiadau Rhanbarthol yn y lleoliadau isod:

· Gogledd

· De Orllewin & Powys

· Dwyrain

· De

**Polisïau ac Ymgyrchu**




Roedd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan wedi canolbwyntio ar feysydd Polisi ac Ymgyrchu yn y Strategaeth MIRROR ddiwethaf.

Ac rydym am adeiladu ar y seiliau hynny.



Byddwn yn gweithio ar bolisïau ac ymgyrchoedd mewn dau gyfarfod ychwanegol y Cyngor Cenedlaethol.

Ein nod yw creu mwy o gyfleoedd i'r aelodau gynrychioli Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.

4

Rydym am benodi pedwar aelod i gynrychioli Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan gyda'r Prif Weithredwr.



Byddant yn ffurfio Pwyllgor Ymgynghorol y Prif Weithredwr.




Byddwn yn eu helpu i fynychu cyfarfodydd, wrth eu talu am wneud hynny.

Bydd pob aelod o'r Pwyllgor yn cynrychioli Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ar un o'r pynciau isod:

· Materion Menywod

· Amrywiaeth

· Iechyd

· Trafnidiaeth



4

Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cyfarfod Joe bedair gwaith y flwyddyn gan drafod beth a drafodwyd mewn cyfarfodydd.



A gwaith polisi arall.

Megis:

· Cyfweliadau ar y cyfryngau

· Ymateb i Ymgynghoriadau

· Negeseuon fideo.

Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith presennol.



Fel ymateb i ymgynghoriadau pwysig.

A chynrychioli aelodau mewn cyfarfodydd pwysig.

Megis Grŵp Ymgynghorol Gweinidogion ar Anableddau Dysgu.




Yn ogystal bydd y Cyngor Cenedlaethol yn llunio maniffesto gwleidyddol ar gyfer etholiadau Llywodraeth Cymru ar 7 Mai 2026.




Bydd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn edrych i gynnal cyfarfod i drafod polisïau gwleidyddol cyn yr etholiadau.



Un yn y gogledd ac un yn y de.

## Rhwydwaith Gweithredu Hunaneiriolaeth Cymru

**SWAN**




Byddwn yn sefydlu SWAN newydd (Self-Advocacy in Wales Action Network) i gymryd lle'r SWAN blaenorol (Support Workers Advisory Network).

Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r isod:





- Llywodraeth Cymru
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Comisiynwyr.

**SWAN**

Nod SWAN fydd hyrwyddo hunaneiriolaeth.



Atgoffa llunwyr penderfyniadau o bwysigrwydd eiriolaeth a'r rhesymau am ei ariannu.






Dysgu o brofiadau eraill a chefnogi ein gilydd.




Dathlu llwyddiannau hunaneiriolaeth a'i rôl ym mywydau pobl gydag anableddau dysgu.

## Cefnogi Grwpiau Lleol

Mae Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn deall bod grwpiau lleol yn wynebu problemau

ac am eu cefnogi

Byddwn yn gwneud hynny wrth gynnig cymorth yn y meysydd dilynol.

- Ariannu
- Cyfryngu
- Cysylltu â Byrddau Partneriaeth Lleol
- Hyfforddiant
- Cyllid a’r Llywodraeth
- Arolygu / darparu cymorth emosiynol ar gyfer rheolwyr grwpiau.

## Nod Ansawdd Hunaneiriolaeth




Byddwn yn cydweithio â grwpiau i drafod y syniad o greu nod ansawdd hunaneiriolaeth.




Y nod yw helpu i gynnal safonau hunaneiriolaeth uchel ar draws y wlad.



Ac er helpu cyllidwyr i ddeall beth yw hunaneiriolaeth.




A beth yw hunaneiriolaeth o safon uchel.



Ein gobaith fydd helpu awdurdodau lleol i ddeall pa mor bwysig yw hunaneiriolaeth.



A pham dylent ei gyllido.

## Cyfathrebu



Mae'n bwysig dewis dulliau cyfathrebu da wrth gysylltu ag aelodau a rhanddeiliaid.



Mae dulliau cyfathrebu yn newid gydol yr amser

**NEWYDD**

Dulliau cyfathrebu newydd yn cael eu datlbygu.

Mae'n bwysig bod Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn diweddaru ei ddulliau cyfathrebu yn gyson.




Ac yn mabwysiadu'r ffyrdd gorau er lleisio barn yr aelodau.




Bydd angen adolygu ein cylchlythyr Talkback.




Er mwyn gweld os yw'n gweithio ar ran aelodau.




Ac os bydd angen unrhyw newidiadau.



Yn ogystal bydd angen gweld pa blatfformau cyfryngau cymdeithasol sy'n gweithio orau i'r aelodau.




A pha fformatau cyfryngau cymdeithasol sydd orau wrth gyfathrebu materion pwysig ar ran ein haelodau i'r rhanddeiliaid.



Yn ogystal, bydd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn trefnu sesiwn podlediad gan y Prif Weithredwr Joe Powell

3

bob tri mis.



Bydd yn cynnwys cyfweliadau gyda'r aelodau a phobl yn y trydydd sector.

Bydd yn helpu i godi proffeil Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan fel corff.




A'r materion sy'n effeithio'r aelodau.




Bydd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan hefyd yn ymchwilio deallusrwydd artiffisial (AI - Artificial Intelligence).



Er mwyn gweld os bydd yn gallu helpu gyda'n gwaith cyfathrebu.

Ar ben hynny, byddwn yn parhau gyda'n gwaith presennol, megis:

· Rhannu storiâu

· Teledu hunaneiriolaeth

· Diweddaru a chynnal y wefan.



## Amrywiaeth



Nid yw aelodaeth Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn amrywiol iawn.



Nid oes llawer o aelodau o gymunedau amrywiol.

Sef:



Cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig.

Cymunedau LGBT.




Byddwn yn llunio Strategaeth Amrywiaeth i gyd-fynd â Strategaeth MIRROR.



Bydd yn nodi sut byddwn yn cynnwys mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol.

# Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

**Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan**

**Blwch Post 1988**

**Casnewydd**

**NP19 1DT**

**© Hawlfraint, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan 2025**